"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] EBRILL, 1885. [RHIF 44.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Iesu Grist	73
Y Pechod yn erbyn yr Ysbryd Glân	79
Abou Ben Adhem a'r Angel	83
Rhyfel	84
Yr Eglwys a Dirwest	87
Mari Fach a'i Mam	90
Y Dduwinyddiaeth Newydd a Hen	91
Nodynau Gwasgarog	92
Y Gog	94
Manion a Hanesion	95
Marwgofion	96

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] EBRILL, 1885. [RHIF 44.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

IESU GRIST.

PWY oedd Iesu Grist? Beth yw'r lle mae ef yn ddal yn y bydysawd? Beth ydym yn feddwl pan yn ei alw'n ddwyfol, a pheth pan yn ei alw yn ddynol? Beth oedd ef, nid yn unig o ran ei swydd, ond ynddo ei hun, o ran ei natur ei hun? Beth yw ei berthynas â Duw, a pheth yw ei berthynas â dyn?

Gwel pob dyn ystyriol ar unwaith ei bod yn anhawdd rhoddi ateb byr a chywir i'r gofyniadau uchod. Mae ein gwybodaeth am fywyd ysprydol mor anmherffaith, a'n drychfeddyliau am fodolaeth ysprydol mor dywyll. Gweled yr ydym ar y goreu mewn drych, ac nid etto wyneb yn wyneb. Gofynwn yr un gofyniadau am danom ein hunain, ein bodolaeth ein hunain; ein lle'n gywir yn y bydysawd; ein perthynas â Duw; ein perthynas â dyn,—pa fodd yr ydym yn gyfartal gerbron Duw, ac etto'r fath wahaniaeth rhyngom, fel y mae'r un natur ddynol yn cynnwys yr anwariad iselaf, ac hefyd y dyngarwr Cristionogol uchaf. Yna, ni a deimlwn fyrdra ein golygon hyd y nod gyda golwg arnom ein hunain. Pwy bynag sydd yn gwneuthur ymchwiliadau mewn perthynas i fywyd a thyfiant yr ysprydd, bydded yr ymchwiliadau hyny mewn perthynas i'w enaid ei hun, neu mewn perthynas i enaid is neu uwch nag ef ei hun, caiff ei hunan mewn byd o ddirgelwch.

Mae'n amlwg mai prif ffynnon ein gwybodaeth am Iesu Grist yw ei ddywediadau a'i gymmeriad ef ei hunan. Mae'n bossibl fod ei ddysgyblion yn camsynied yn eu cyfrif o hono, fel yr ydym yn gwybod eu bod yn ystod rhan fawr o'u bywyd, ond mae'n rhaid i ni dderbyn ei dystiolaeth ef ei hun fel gwirionedd. Mae'n rhaid i ni fyned yn ol oddiwrth gredoau hen a diweddar, at Grist yr Efengylau,—yn ol at y

bywyd ei hunan. Yn yr Efengylau, yr ydym yn credu ein bod yn myned yn ol i'r man agosaf a fedrwn at Grist, fel yr oedd efe mewn gwirionedd yn byw yn mhlith dynion, ac fel yr oedd efe'n ymddangos i'r rhai a wrandawent mewn gwirionedd ar ei lais, ac a edrychent yn ei wyneb. Yn y bywyd yna oedd nerth Cristionogaeth yn yr amser cyntaf, ac yn y bywyd yna y mae nerth Cristionogaeth hyd y dydd heddyw. Nid oedd neb yn mhlith dysgyblion yr Iesu yn alluog i ddyfeisio y dywediadau a briodolir iddo ef, na dychymygu y bywyd a'r cymmeriad a ddadguddir yn yr Efengylau. Nid oedd Iuddew na Chenedl-ddyn yn alluog i ffugio bywyd Crist. Gan nad faint y llygriadau sydd wedi ymlithro i mewn i hanes bywyd Crist yn yr Efengylau, mae'r prif ffeithiau'n aros yn ddilwgr. Mae'r Iesu wedi *stampio* ei ddarlun ei hun, a'i natur ei hun ar bob gair a lefara, ac ar bob gweithred a gyflawna.

Wrth edrych i mewn i'r Efengylau, yr ydym yn cael ein llwyr argyhoeddi, o leiaf, mewn perthynas i ddau beth gyda golwg ar Iesu Grist. Yn gyntaf, ei fod yn hawlio iddo ei hunan radd o urddas, awdurdod, a gallu, y fath nad ydym yn gwybod fod neb arall mewn hanesiaeth wedi hawlio eu cyffelyb; yn ail, ei fod yn dysgu yn eglur y ffaith o feidroldeb ei natur, a'i ymddybyniad hollol ar Dduw. Gall pawb a ddarlleno y pedair Efengyl yn ofalus, weled fod y pethau hyn yn ffeithiau diamheuol.

Yn y lle blaenaf, yr ydym yn dal fod yr Iesu yn hawlio iddo ei hunan urddas, gwybodaeth, awdurdod, gallu, y fath na wnaeth un dysgawdwr arall erioed eu hawlio. Ni a welwn hyn yn mhob man yn nhôn gyffredinol ymadroddion ac ymddygiad Crist. Mae ei ddywediadau yn y Bregeth ar y Mynydd yn iaith un ag sydd yn hawlio yr awdurdod i gyflawnu neu ddystrywio. "Clywsoch ddywedyd gan y rhai gynt, . . . eithr yr wyf fi yn dywedyd i chwi." Cyhoedda amodau derbyniad gyda Duw, heb un petrusder. "Llawer a ddywedant wrthyf yn y dydd hwnw, Arglwydd, Arglwydd; oni phrophwydasom yn dy enw di? ac oni fwriasom allan gythreuliaid yn dy enw di? ac oni wnaethom wyrthiau lawer yn dy enw di? ac yna yr addefaf wrthynt, nis adnabum chwi erioed: ewch ymaith oddiwrthyf chwi weithredwyr anwiredd." "Nef a daear a ânt heibio, eithr fy ngeiriau i nid ânt heibio ddim." Matth. xxiv. 35. Cyhoeddai bechodau yr edifeiriol wedi eu maddeu, a chyhoeddai farn benaf Duw uwchben yr angrhediniol a'r gwrthryfelgar. "Pwy bynag gan hyny a'm cyffeso i yn ngwydd dynion, minau a'i cyffesaf yntau yn ngwydd fy Nhad, yr hwn sydd yn y nefoedd." "Pob peth a roddwyd i mi gan fy Nhad; ac nid edwyn neb y Mab ond y Tad, a'r hwn yr ewyllysio y Mab ei ddatguddio iddo." Ac yna, ar ol dywedyd am agosrwydd ei berthynas â Duw, y mae yn troi at ddyn gydag urddas annhraethadwy cariad a gallu achubol, "Deuwch attaf fi bawb ar sydd yn flinderog a llwythog, a mi a esmwythaf arnoch."

Yr ydym yn cyfyngu ein hunain i iaith Crist am dano ei hun. Mae'r dyfyniadau a roddir genym y fath ag sydd yn dangos ton gyffredinol yr Efengylau. Mae'r iaith a arferir gan Grist, yn iaith a allai

yn briodol gael ei harfer gan un a gredai ei fod yn genadwr dwyfol, gan un a deimlai ei fod yn llefaru geiriau gwirionedd dwyfol, gorchymynion deddf ddwyfol, addewidion cariad dwyfol, a bygythion cyfiawnder dwyfol. Meddyliwn am yr iaith yn cael ei harfer gan neb arall, a byddai naill ai yn gabledd neu yn ynfydrwydd. Meddyliwn am ei eiriau yn cael eu harfer gan y dyn goreu y gwyddom am dano, neu am yr hwn yr ydym wedi darllen mewn hanesiaeth, ac ni a welwn fod y iaith yn hollol anamgyffredadwy, oddieithr fod yr hwn sydd yn ei llefaru yn teimlo fod ganddo awdurdod ddwyfol. Mae gyda ni dystiolaeth ddigonol yn ngeiriau ac ymddygiad Crist, ei fod yn llwyr argyhoeddedig fod ganddo waith pennodol iddo ei hun, er gogoniant Duw, ac er achubiaeth y byd.

Yn ail, yr oedd yn dysgu y ffaith o'i feidroldeb a'i ymddybyniad hollol ar Dduw. Y mae bob amser yn dueddiad yn mhob crefydd, i'r dysgyblion ddyrchafu eu hathraw, fel ag i adlewyrchu gogoniant ar ei waith ef a hwythau. Yr ydym yn cael hyn hefyd yn mhregethiad boreuol yr Apostolion, yr oeddent fel pe mewn petrusder pa fodd i osod allan yn ddigonol eu cariad a'u parch at Iesu Grist. Pa fodd bynag, gwna ymchwiliad gofalus o'u geiriau, ddangos na ddarfu iddynt erioed golli eu golwg ar y gwahaniaeth rhwng y Tad a'r Mab, rhwng yr Anfonwr a'r Anfonedig, rhwng y Cyfryngwr a'r Deddfroddwr. Mewn oesoedd dylynol, aeth y gwahaniaeth hwn yn raddol i golli, ond yr oedd yn gofyn tair canrif neu ragor, i ddwyn hyn oddiamgylch. Mae'r cyfnewidiad graddol hwn i'w weled yn amlwg mewn hanesiaeth eglwysig, o'r cyfaddefiad hwnw a wnawd gan Petr a'i frodyr,—"Ti yw Crist, Mab y Duw byw," i lawr at y cyfansoddiad rhyfeddaf hwnw o holl gyfansoddiadau dynol, yr hwn a ysgrifenwyd yn y bumed ganrif, ac a elwir Credo Sant Athanasius.

Pa fodd bynag, y mae ymchwiliadau hanesiol o'r fath yn anhawdd a blinderus. Mae iaith yr Apostolion eu hunain, yn eu llythyrau at yr Eglwysi, weithiau yn anhawdd ei deall a'i hesponio. Ein ffynnon lawnaf o wybodaeth am Grist, yw geiriau Crist ei hunan, a'r esponiad goreu o hono yw ei fywyd ei hun. Ceisiwn ddeall yn gyntaf yr hyn a ddywed ef am dano ei hun; yna, ni a fyddwn yn fwy parod i chwilio iaith yr Apostolion, ac addysgiadau diweddarach yr Eglwys am dano, gyda mwy o debygolrwydd o'u deall yn iawn. Gadewch i ni ynte geisio deall yn eglur beth oedd tystiolaeth Crist am dano ei hun. Os oedd ef yn dysgu meidroldeb ei natur a'i briodoleddau, nis gall erthyglau ffydd nac awdurdod eglwysig ein cyfiawnhau ni am gredu yn wahanol am dano.

Yn gyntaf, yr ydym yn appelio at dôn gyffredin geiriau ac ymwneyd Crist a'i ddysgyblion i brofi meidroldeb ei natur a therfynoldeb ei awdurdod, yr un fath ag ydym wedi appelio atynt i brofi uchder ei natur, a helaethder ei awdurdod. Ceisiwn ddychymygu beth fyddai tôn ac ymddygiad un ag oedd yn deimladwy o fod, mewn rhyw ystyr neu gilydd, y Duw Anfeidrol; un a lefarai oddiar ei awdurdod ei hun, ac un oedd yn meddu ynddo ei hunan bob gallu. Yn sicr, nid oedd ei ddysgyblion, hyd y nod y rhai oedd yn dal cymdeithas agosaf ag

ef, ddim yn ei ddeall fel yn hawlio bod yn ogyfuwch â Duw. Y mae yn ffaith nad oedd neb o'r rhai a amgylchynent yr Iesu yn ystod ei fywyd, yn gwybod dim am ei fod yn Dduw. Yr oeddent yn ei holi yn y modd mwyaf ëofn, yr oeddent yn dadleu ag ef, ac hyd y nod yn ei geryddu. Bradychwyd ef gan un; gadawyd ef yn ei gyfyngder gan bob un o honynt, a phan y gosodwyd ef i farwolaeth fel y drwg-weithredwr gwaethaf gan yr Iuddewon, tybient fod y cwbl ar ben, a bod gobaith Israel wedi llwyr ddiflanu. Yr oedd tylwyth ei dŷ ei hun yn ei ystyried "allan o'i bwyll," hyd y nod am osod ei hunan i fyny fel y Messiah, a hwy a aethant allan "i'w ddal." Pa fodd y gallwn ni gyfrif am hyn, os oedd ei gyfeillach gyffredinol â hwynt, neu ei eiriau am dano ei hun, yn rhoddi ar ddeall iddynt nad oedd ef yn neb llai na Duw Anfeidrol. Y mae yn ffaith nad oedd neb o'r rhai a'i hamgylchynent ef yn ystod ei fywyd, o leiaf, yn gwybod dim am ei fod yn Dduw.

Ond os bydd i ni chwilio yn ofalus ymadroddion Crist am dano ei hun, a'i ddylyn fel yr oedd efe yn myned oddiamgylch o le i le gan wneuthur daioni, nid oes dim yn fwy amlwg yn hanes ei fywyd na'r modd y byddai yn wastad yn priodoli pob peth i'r Tad. Mae ei ostyngeiddrwydd yn elfen mor amlwg yn hanes ei fywyd ag ydyw ei awdurdod, ac y mae'r ddwy linell yna yn ei gymmeriad yn anwahanadwy gyssylltiedig â'u gilydd. Iaith cenadwr oedd ei iaith, ymddygiad cenadwr oedd ei ymddygiad, ac yr oedd y cenadwr yma wedi dyfod, nid i wneuthur ei ewyllys ei hun, ond ewyllys y Tad Nefol. Y teitl uwchaf a hawliai, neu a oddefai gael ei arfer am dano, oedd "Mab Duw." Ac y mae'r teitl yna ynddo ei hunan, yn eglur osod allan mai bôd crëedig ac ymddybynol oedd, ac y mae'r un mor amlwg ei fod yn deitl nad yw yn gweddu i fod hunan-ymddybynol. Mae'r Iesu mewn llawer man yn dysgu yn bendant nad oedd ef ddim yn Dduw, "Paham y gelwi fi yn dda? Nid oes neb da ond un, sef Duw." "Eistedd ar fy llaw ddeheu ac ar fy llaw aswy, nid eiddof fi ei roddi ond i'r sawl a ddarparwyd gan fy Nhad." "Eithr am y dydd hwnw a'r awr, nis gwyr neb, na'r angylion sydd yn y nef, na'r Mab, ond y Tad." Mae iaith o'r fath yna yn gysson â gradd uchel o ddyrchafiad, ond os nad yw yn gosod allan feidroldeb ac ymddybyniaeth, nid ydym yn gwybod pa eiriau fedr wneyd hyn.

Mae yna un ffaith, pa fodd bynag, yn rhedeg drwy holl fywyd yr Iesu, ag sydd i ni yn fwy nerthol nag y gallasai unrhyw eiriau byth fod. Yr ydym yn golygu y ffaith fod ei fywyd yn fywyd gweddigar, ac yn llawn o ddiolchgarwch i Dduw. Treuliai nosweithiau cyfain mewn gweddi, ac edrychai i fyny at Dduw bob amser am nerth ac ysprydoliaeth ar gyfer ei waith. Byddai bod amser yn rhoddi ei hunan i fyny i dywysiad Ysbryd Duw. Gwneyd ewyllys Duw ar y ddaear fel yr oedd yn cael ei gwneyd yn y nefoedd oedd nôd mawr ei fywyd. Yr oedd gwneyd ewyllys Duw yn Anfeidrol fwy pwysig yn ei olwg na gwneyd ei ewyllys ei hun. Gweddiai ar Dduw fel un a ymddybynai yn hollol arno, a thalai ei ddiolchgarwch iddo am bobpeth a dderbyniai, ac am yr oll oedd ef yn alluog i gyflawnu. Pa fodd y gallwn ni

gyssoni y ffaith hon, yr hon nis medr neb ei gwadu, a'r haeriad a wneir gan ran o'r Eglwys Gristionogol, ond yr hwn haeriad ni wnawd erioed gan Grist ei hun, ei fod ef yn gwbl gydradd â'r Tad. Nis gallwn gredu mai ffug disail oedd gweddiau taerion yr Iesu, nis gallwn gredu mai dim ond ymddangosiad allanol oeddent. Nis gallwn gredu mai gweddio arno ei hunan oedd yr Iesu—ei natur ddynol yn gweddio ar ei natur ddwyfol. Yr ydym yn credu yn hytrach fod ei weddiau yn dywalltiad allan ei holl enaid gerbron ei Dduw a'i Dad, a'r oll yn arwydd o ymgyssegriad hollol i'r Anfeidrol Jehofah. Meddai, "Fy Nhad, os yw bossibl, aed y cwpan hwn heibio oddiwrthyf, etto nid fel yr wyf fi yn ewyllysio, ond fel yr wyt ti." "Ny Nuw, fy Nuw, paham y'm gadewaist?"

Dymunem drin golygiadau pawb gyda pharch, ond y mae yn rhaid i ni yn onest addef, nas gallwn amgyffred pa fodd y gall neb ag sydd yn credu fod Iesu Grist mewn gwirionedd yn gweddio Duw am nerth, ac yn talu diolch i Dduw am gymhorth, gredu etto mai'r Duw Anfeidrol ei hun oedd Iesu Grist. Os ydym yn credu fod Iesu Grist, yn ol ei eiriau ei hun, wedi derbyn ei fodolaeth a'i awdurdod oddiwrth Dduw, ac yn barhaus yn edrych i fyny at Dduw, mewn gweddi a diolchgarwch, nis gallwn yn gysson, ar yr un pryd, gredu mai'r un bôd yw Duw a Christ. Yn ein gwaith yn ceisio gwneyd hyn, yr ydym yn rhwym o golli ein golwg ar Dduw, neu ar Iesu Grist. Ond nid yw hanes ei fywyd yn gofyn gyda ni wneyd dim o'r fath, ac yr ydym yn foddlawn gorphwys ar ei dystiolaeth ei hun, "A hyn yw'r bywyd tragywyddol; iddynt dy adnabod di *yr unig wir Dduw*, a'r hwn a anfonaist ti, Iesu Grist." Ond yr ateb a roddir yn gyffredin i'r ymresymiad yna yw, mai fel dyn yr oedd yn gweddio. Ond mae yr ateb yn syrthio yn fyr o gyrhaedd ei amcan, hyd y nod pe byddem yn gallu cyssylltu meddwl eglur â'r attebiad. O herwydd y mae hyd y nod y dyn ag sydd yn dal yr athrawiaeth yma—yn dal fod yna ddwy natur yn Nghrist—mae ef ar yr un pryd yn dal mai *un person oedd*—un ymwybodolrwydd. Gan hyny, pan mae yr Iesu'n arfer y gair "myfi," mae'n rhaid ei fod yn golygu ei *hunan*—yr oll o hono ei hun—yr oll o'r un person yna; a'r cwestiwn yw pa un ai bod meidrol neu anfeidrol, pa un ai bod annibynol neu fod dibynol, hollwybodol, hollbresenol, hollalluog, oedd hwn, neu nad e—y bod gweddigar yma, y bod yma ddywedai fod pob gallu wedi ei *roddi* iddo yn y nefoedd ac ar y ddaear? Ond ar bwy y gweddia Duw? Pwy all *roddi* i Dduw ei allu? Neb. Y mae'r Ysgrythyr, yn ogystal a synwyr cyffredin, yn ymddangos yn gwadu'r athrawiaeth iawnffyddol o Dduwdod Crist. A chofiwn ein bod ni'n anrhydeddu y Mab fel yr ydym yn anrhydeddu'r Tad, pan yn gwrando ar eiriau Crist gyda golwg ar y Tad, a chyda golwg arno Ef ei hun.

Beth, ynte, ydym yn ddysgu am natur yr Iesu pan yn gwrando ar ei eiriau Ef ei hun? Geiriau pwy oedd y rhai yma—"Gwneler dy ewyllys," "Aed y cwpan hwn heibio oddiwrthyf," "Nid oes gan Fab y dyn le i osod ei ben i lawr," "Dyn a ddywedodd i chwi y gwirionedd," "Yn drist hyd angau?" Pan yn adolygu yr oll o fywyd yr

Iesu, ac yn gwrando ar ei eiriau, yr ydym yn teimlo ein hunain ar unwaith yn mhresenoldeb *dyn*—dyn dyrchafedig, ardderchog, gogoneddus—dyn yn mhlith dynion, y dyn o Nazareth. Ei ymdrech oedd gwneuthur pawb i garu eu gilydd, a charu Duw, a charu dyledswydd. Yr oedd Efe'n wylo gyda hwynt, ac yn gweddio drostynt. Cyfeillachai â'r tylotaf ac â'r truenusaf; yr oedd yn gyfaill publicanod a phechaduriaid; yr oedd yn gynnorthwy y diamddiffyn, yn ddyddanydd y blinderog a'r llwythog. Pan yn darllen am y teimlad o unigedd oedd yn ei feddiannu pan oedd ei ddysgyblion yn ei gamddeall, ac yn y diwedd yn ei adael ac yn ffoi; pan yn darllen am ei chwys fel defnynau o waed yn syrthio oddiwrtho yn ei ing, ei ymostyngiad i ewyllys Duw; pan yn darllen y modd y byddai'n ymbil ar Dduw i faddeu i'w lofruddion gwaedlyd; a'r modd, yn ei ingoedd ar bren y groes, y llefodd allan, "Y mae syched arnaf;" a'r modd y darfu iddo gyda'i anadliad olaf ddywedyd, "I'th ddwylaw di, O Dad, y gorchymmynaf fy yspryd;" pa fodd y gallwn ni eto wneyd y camsyniad arswydus a rhyfeddol nad oedd hwn neb llai na'r Duw Anfeidrol? Os dywedir wrthym mai'r Anfeidrol Dduw oedd y bod a fu byw ac a fu farw yn Palestina, yr ydym yn ateb nad oedd *Ef* ddim yn ymddangos ei fod yn gwybod hyn. Yr oedd yn credu mai *mab* yn ymddibynu ar Dduw oedd, mai *gwas* Duw oedd. Yr oedd ef yn dysgu'n barhaus nad oedd ond un Duw; nid oedd ganddo ef le o gwbl i un arall. Nid oedd yr Iesu'n deimladwy fod ganddo ddwy natur. Nis gallwn gredu chwaith mai rhyw fod dyeithr rhwng Duw a dyn oedd, fel y mae llawer o Undodiaid wedi bod yn credu, ac fel y mae llawer etto yn credu. Credant fod y bod yma, o ran ei natur, cyn ei ymddangosiad ar y ddaear, yn hollol anadnabyddus i ni. Pe felly, byddai ei fywyd yn ddirgelwch anchwiliadwy i ni; ni byddai ei ddysgeidiaeth yn gymhwys i'n hangenion, na'i esiampl o un gwasanaeth i ddynion. Ei ddynoliaeth sydd yn peri i ni deimlo hiraeth am ddyfod yn nes ato, a cheisio cael gafael yn ei law, fel y byddo i ni gael ein harwain ganddo. Mae purdeb ei gymmeriad yn ysprydoliaeth fyw a pharhaus i ni geisio dringo'n uwch i fyny; mae ei lais yn ein calonogi'n y blaen. Mae ei natur fyw a chariadus yn appelio atom yn barhaus. Pan yn sefyll yn ei bresenoldeb, yr ydym yn teimlo ein bod yn edrych yn llygaid ein Brawd Henaf, yr hwn sydd yn dywedyd wrthym am ein dyledswyddau yn y byd hwn, ac am ein cartref tragywyddol wedi myned oddiyma.

Etto, dywedwn nad yw dywedyd mai dyn oedd Ef, o ran ei *natur*, ddim yn ddywedyd yr oll am dano. Yr ydym yn cael ein dysgu yn yr Efengylau ei fod yn genad neillduol Duw; fod ei genadwri'n ddwyfol; fod ei awdurdod a'i ddysgeidiaeth yn uniongyrchol oddiwrth Dduw, "Canys myfi ni leferais o honof fy hun, ond y Tad yr hwn a'm hanfonodd i, Efe a roddes orchymyn i mi beth a ddywedwn, a pha beth a lefarwn." Yr oedd Efe, gan hyny, yn ei genadwri, yn ei gymmeriad, ac yn ei awdurdod, yn ddwyfol. Nid ydym yn proffesu deall pob gair a ddywed Ef am gymmundeb agos ei fywyd â Duw. Nid yw'n beth i ni i'w ddysgwyl. Mae'n rhaid i ni ein hunain

ddyfod lawer yn nes at Dduw yn gyntaf. Ond y mae'n ymddangos yn eglur, oddiwrth ei ddysgeidiaeth, ei fod Ef yn y cymmundeb agos yma â Duw, ei fod yn hyn hefyd "yn gadael i ni esiampl." Ystyriwn y pellder rhwng gwahanol aelodau y gymdeithas ddynol fel y mae'n bresenol yn cael ei chyfansoddi. Cymmerwn Newton, gyda'i feddwl treiddgar, yn esgyn i fyny i uchelderau y nefoedd, a gosodwn ef yn ochr y miloedd hyny o'i gydwladwyr nad ydynt etto lawer yn uwch na'r anifail direswm, ac yna ni a welwn y fath faes eang sydd yn cael ei gynnwys yn y gair Duw! Os gelwir Iesu Grist "yn Fab Duw," yr ydym ninau hefyd yn cael ein hanrhydeddu â'r un enw. Gelwir Ef "yn gyntaf-anedig pob creadur," gan gyfeirio at aelodau ereill o'r un teulu ysprydol. Yr oedd Ef yn ddyn mwy perffaith na neb arall. Cafodd dynoliaeth ynddo Ef ei gogoneddu. Profwyd Ef yn mhob peth fel ninau, etto heb bechod; perffeithiwyd Ef drwy y pethau a ddyoddefodd. Y mae Ef i ni yn Fab y Duw byw, yn ddelw o'r Tad. Trwy ei fywyd a'i eiriau Ef, mae cymmaint o'r Anfeidrol Dduw yn cael ei wneuthur yn adnabyddus i ni ag sydd yn bossibl i ni yn y sefyllfa yma. Yr ydym yn ei dderbyn fel ein Meistr a'n Harweinydd dwyfol. Mae yn sefyll o'n blaenau yn ddarlun o ardderchogrwydd moesol ac ysprydol. Pa fodd, ynte, y gallwn ni lai na rhoddi lle iddo'n nghyssegr sancteiddiolaf ein calonau?

R. C. Jones.

Y PECHOD YN ERBYN YR YSPRYD GLAN.

Gan y Parch. Jenkin Lloyd Jones, Chicago.

(Parhad o'r Rhifyn diweddaf.)

(Matt. xii. 31, 32.)

II. Mae fy ail reswm dros y dywediad caled hwn yn gorwedd yn y ffaith fod gan y pechod hwn yr effaith mwyaf dinystriol ar ereill. Efe yw y pechod mwyaf niweidiol mewn cymdeithas heddyw. Gellir ei nodweddu fel y *dry rot* yn nghalon cymdeithas, yn gystal ag yn nghalon y dyn personol. Mae y rhan fwyaf o'r troseddau ar y *calendar* yn cyhoeddi eu rhybudd eu hunain. Fel dyddiau rhewllyd yr Hydref, y gwlaw a'r dymhestl, rhagddywedir am danynt gan gyfnewidiadau yn yr awyr, fel y gall dynion wylied yn fwy neu lai yn erbyn y perygl. Ond mae hwn fel hadau gwenwynllyd y dwymyn heintus, yn treiddio i'n cartrefleoedd heb anfon un rhybudd o'u blaen. Welwn ni ddim o'u presenoldeb nes mae y gruddiau gwridog yn gwelwi, y dwylaw yn colli eu gafael, a'r anadl boeth fel pe byddai yn deifio ein gwynebau. Mae y dyn meddw yn ddarlith hyawdl ar ddirwest pan yn ceisio rhodio yr

heol. Mae y dyn anniwair yn dudalen agored, ar yr hon y gallwn ddysgu gwersi diweirdeb. Mae un hunanladdiad yn pregethu mor effeithiol, fel mae yn rhwystro mil o lofruddiaethau. Nid felly y mae gyda'r troseddau yn erbyn yr Ysprydd Glân oddifewn. Mae y cerbyd, y palas, pleidlais y mwyafrif yn yr etholiadau, y phylacterau llydain, yr eglwys rwysgfawr, y gynnulleidfa fawr, meitr yr Esgob—mae y rhai hyn oll yn canlyn yn llwybr anffyddlondeb dirgelaidd i lais yr Ysprydd. Pa ryfedd, ynte, eu bod yn dallu teimlad moesol miloedd, ac yn faen tramgwydd i amcanion goreu miloedd yn rhagor. Mae y dyn sydd yn fy yspeilio i o'm gwisg yn gwneyd niwed i mi. Dichon i mi ddyoddef anwyd o herwydd hyny; ond mae y dyn sydd yn fy yspeilio o'm hymddiried yn fy nghydddynion yn gwneyd niwed anfeidrol mwy i mi.

Fy nghyfeillion, yr wyf yn galaru gyda chwi o herwydd cynnydd drygau cyffredin sydd yn frigog mewn cymdeithas, ac yr wyf yn gofidio wrth edrych ar ystadegau meddwdod ac anniweirdeb; ond yr wyf yn teimlo yn eithaf sicr nad yw y rhai hyn ddim yn bygwth y wladwriaeth hanner cymmaint â thôn ochelgar, anonest, ein pwlpudau pan y maent yn trin cwestiynau byw y dyddiau presenol—pan yr ymgymmerant â phenderfynu y pynciau y mae yr Ysprydd Glân yn awgrymu i'r chwarter diweddaf o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Difaterwch y rhai a ystyrir y dynion goreu i gwestiynau mawrion canolog bywyd a gwirionedd, marweidd-dra yr hyn a elwir cymdeithas *respectable*, diffyg brwdfrydedd yn ein heglwysi at bethau ardderchog—y rhai hyn yw yr arwyddion galarus fod y cymmundeb yn anmherffaith rhwng y dynol a'r Dwyfol—rhwng Duw a dyn. Edrychwn ar ffeithiau, meddyliwch am y miloedd yn Chicago heddyw ydynt yn eistedd gartref, a byth yn myned i un cwrdd, y rhai nid ydynt yn dlawd nac yn euog o droseddau, ond yn byw yn *respectable* ac yn foethus. Mae gwên hanner wawdlyd ar eu gwynebau wrth feddwl am y pump neu y deng mil o seddau gweigion yn yr eglwysi, oblegyd nad yw yr eglwysi hyn ddim yn sefyll iddynt hwy fel ffynnonellau ysprydoliaeth, ond yn hytrach fel lleoedd yn y rhai mae y gweinidogion yn edrych yn ol ac nid yn mlaen—yn boddloni y rhai sydd yn esmwyth eu meddyliau, ac yn gadael yn ddisylw angenion gwaeddfawr yr oes y maent yn byw ynddi. Dichon i'r bobl hyn fod yn annghyfiawn yn eu barnau, ond tystiant i'r afiechyd ysprydol sydd yn ymledu oddiwrth y rhai a wariant amser "i wnio dail y ffigysbren am y gwirionedd noeth." Dyna arwyddion bygythiol yr amseroedd presenol—y dylanwadau mwyaf niweidiol mewn cymdeithas. Duw gynnorthwyo y bechgyn a'r merched ydynt wedi eu tynghedu i dyfu i fyny mewn awyrgylch lle mae dylanwad dirgelaidd cellwair â chydwybod yn treiddio pob haen mewn cymdeithas, ac yn myned dan sylfeini y cyfansoddiad moesol ac ysprydol, gan adael gallu yr ewyllys wedi ei wanhau, fel mae yn syrthio yn aberth hawdd i'r pechodau sydd yn ei amgylchu.

III. Y trydydd reswm dros osod pwys ar y dywediad caled hwn yw fod y pechod yma yn erbyn yr Ysprydd Glân bob amser wedi deffroi digllonedd yr eneidiau mwyaf ardderchog. Dyma yr un peth sydd wedi galw allan wrthdystiad proffwydi pob lle ac amser. Mae eu ceryddon

llymaf wedi eu harbed ar gyfer anonestrwydd meddyliol ac anffyddlondeb i yspryd y gwirionedd. Darllenwch holl Feiblau yr oesau, gwrandewch ar rybuddion mwyaf cyffrous holl gapteniaid mawr y meddwl, o Socrates i Luther, o Buddha i Channing, ac fe gewch allan eu bod wedi eu hanelu yn erbyn annidwylledd. Yr oedd yr Iesu yn dyner at bublicanod a phechaduriaid, ac yn cymdeithasu â hwy, ond pryd bynag y mae yn dweyd y gair, "Phariseaid," yr hyn mae yn wneyd rhyw ddeg-ar-hugain o weithiau yn yr efengylau, mae bob amser mewn tôn o rybudd, o gerydd, neu o ddirmyg; ac etto, hwy yn ddiamheu oeddent y pryd hwnw, ac a ystyrir yn awr hefyd, fel y dosparth goreu mewn cymdeithas. Mewn cyssylltiad â'r ysgrifenyddion, cynnrychiolent gyfoeth, gwrtaith, a bywyd eglwysig Judea. Hwy oedd y bobl nad oeddent yn lladrata, yn dweyd celwydd, nac yn *cheato* eu cymmydogion. Yr oeddent, yn ddiamheu, yn fwy rhydd nag unrhyw gangen arall o gymdeithas oddiwrth bechodau cyffredin y natur anifeilaidd mewn dyn; etto, hwy oedd gwrthddrychau digllonedd cryfaf yr enaid eangaf a mwyaf tyner mewn hanes. Paham? Yn sicr, nid oblegyd eu bod yn gyfoethog, yn wybodus, yn ufadd i'r gyfraith wladol, ond oblegyd eu bod yn esmwyth yn mhresenoldeb annghyfiawnderau mawrion—oblegyd eu bod yn ddifater i wirioneddau pwysig ond anmhoblogaidd—oblegyd eu bod yn falch o'u cyrhaeddiadau eu hunain—oblegyd nad oedd ganddynt ddim ond gwawd at bob gair o gynnydd, a phob awgrym o ddiwygiad. Yr oeddent wedi lladd plant eu hymhenyddiau eu hunain drosodd a throsodd, wedi mogi llais eu cydwybodau, a diffodd yr yspryd oedd yn sisial yn eu mynwesau. Yn mhresenoldeb pechodau o'r fath hyn nis gallai hyd y nod yr Iesu ei hun attal ei ddigllonedd. Darfu iddo ryw ugain gwaith daflu y cyhuddiad o ragrith yn eu gwynebau. Dyma'r pechod sydd bob amser wedi cyffroi gwaed plant ardderchocaf Duw. Mae y digllonedd hwn yn taranu yn ngeiriau Luther, rhua yn mygythion Knox, ffrwydra fel *bombshells* yn ngorchymmynion Milton a Cromwell, dylifa yn beleni poethion o eneuau Theodore Parker a Charles Sumner, ac mae yn gwneyd hyd y nod iaith eneidiau tyner a boneddigaidd Shelley, Channing, Thoreau, a Samuel J. May, i ddisgyn fel tân ar groen.

Carwn pe buasai fy ngeiriau yn cael eu dihatru o bob ymddangosiad o angerddoldeb neu chwerwder. Nid wyf yn annghofus o'r perygl i gamsynied digllonedd y proffwydi am rywbeth rhatach o lawer—digllonedd y dallbleidiwr sydd yn credu fod ei feddwl ef a'r gwirionedd yr un, a'r hwn nid oes ganddo amynedd at y rhai na edrychant ar bethau o'i safle ef. Yr wyf yn ceisio gochelyd hyn. Ond ar berygl cael fy nghamddeall, yr wyf wedi beiddio siarad am yr hyn yr ystyriaf yn gwestiwn pwysig ac ymarferol—cwestiwn o'u cymharu â'r hwn mae yr holl gwestiynau mewn moesau, duwinyddiaeth, a chrefydd, yn ymddangos i mi yn ail-raddol a dibwys, a hwnw yw: pa mor bell mae y gweinidog a'r eglwys heddyw yn cael eu cyfiawnhau wrth ddystewi llais yr yspryd oddifewn yn *interest* yr hyn sydd yn ymddangos yn ddaioni oddiallan? Mae yn beth mawr i wneyd eglwys yn gartref cyssurus, cymdeithasol, oddiamgylch yr hon yr ymgasgla pob peth

sydd yn barchus ac yn hyfryd yn y gymmydogaeth. Mae yn beth da i siarad geiriau moesoldeb a chrefydd yn y fath fodd ag y byddo cynnulleidfa fawr un Sul yn dwyn mwy o gynnulleidfa y Sul ar ol hyny. Yr wyf yn credu mewn cyfraniadau helaeth, a thrysorfa lawn mewn eglwys; ond a ydyw y pethau yma i gael eu prynu ar draul caethiwo un enaid? A ydyw cred hannerog a diflanol yn y Drindod a chosp dragwyddol yn werth i'w chadw ar draul ymddiried dyn yn y pwlpud a'i barch at wroldeb y weinidogaeth? A ydwyf fi yn myned i gefnogi y symmudiad hwnw a elwir yn rhyddfrydig, sydd wedi colli ei ymddiried yn y llais a ddyrchafir mewn gweddi, ac yn edrych gyda dirmyg ar allor crefydd a phob peth sydd yn perthyn iddi? Na ato Duw. Gadewch i ereill wneyd fel y mynont, a bydded eu cyfrifoldeb i Dduw, ac i Dduw yn unig. Na fydded i un dyn basio barn arnynt. Gadewch i mi ddysgwyl y methiant agos hwnw yn hytrach nâ thriugain mlynedd o lwyddiant a derfyna mewn methiant parhaus. Gadewch i ddynion barhau am byth i gredu yn gadarn ac yn wrol yn yr hyn a ymddengys i mi yn ddychrynfeydd Calfiniaeth, yn hytrach nag ennill iddynt eu hunain orphwysfa mewn credo esmwythach ar draul parlysu eu cydwybodau.

Ond paham y dylai dyn wneyd ei hun yn annymunol? Paham y dylai dori i fyny esmwythyd tawel llwyddiant? Paham y dylai beryglu cyfeillachau hyfryd, a throi ei gefn ar gyssylltiadau dedwydd? Nid wyf yn gwybod paham. Gofynwch i Dduw. Yr wyf yn gwybod yn unig mai hyny yw y drefn. Dywed Emerson, "Pan mae Duw yn gollwng meddyliwr yn rhydd yn y byd hwn, mae y ddaear yn crynu," ac mae hanes yn cadarnhau y gosodiad fod proffwydi wedi bod bob amser yn bobl annymunol yn ngolwg eu cymmydogion.

"Count me o'er earths chosen heroes;
They were men who stood alone,
While the men they agonized for
Hurled the contumelious stone."

A ydym ni ddim yn cael yma esponiad o'r anhawsderau sydd wedi blino llawer o fyfyrwyr bywyd yr Iesu? Fel mae Matthew wedi trefnu ei hanes, mae pregeth gyhoeddus gyntaf yr Iesu yn dechreu gyda'r gwynfydau ydynt yn dyferu fel diliau mêl o wefusau tynerwch ac ewyllys da; mae y bregeth ddiweddaf yn y drydedd bennod ar hugain o'r hen efengyl yn terfynu gyda saith o waeau. Mae y melldithion ofnadwy hyny yn syrthio fel taranfolltau o'i wefusau digllawn, ac yn rhuthro yn mlaen mewn tymhestl o deimlad nad oes dim cyffelyb mewn llenyddiaeth ddynol. Sut mae hyn? A ydyw llefarwr y gwynfydau wedi dirywio er mwyn bod mewn cyflwr i gyhoeddi y gwaeau? A all y ddau ddyfod o'r un ffynnonell? Gallant, yn sicr. Mae un yn gwneyd y llall yn bossibl. Mae y tynerwch Dwyfol at y pechadur, a'r digllonedd Dwyfol yn erbyn pechod, bob amser yn myned gyda'u gilydd. Yma mae y wir reol er mwyn penderfynu dyfnderoedd cymhariaethol cuogrwydd. Mae gan y dyn sydd wedi lladrata torth fel na fyddo ei blant yn newynu nod ar ei enaid gwahanol i lywydd cyfoethog y banc sydd wedi gadael ei ddosparth yn yr Ysgol Sul er

mwyn ffoi ymaith â chynnyrchion pobl dlodion yn ei logell. Na, gyfeillion, fyddem ni ddim mor sicr fod yr Iesu wedi llefaru y gwynfydau pe na fyddai gyda ni hefyd y gwaeau, i brofi mor gynnwysfawr ac amlochrog oedd ei natur. Mae wedi bod felly erioed. Er ei fod yn ddychryn i ragrithwyr, pwy ond Luther oedd *favourite* y plant. Yr oedd pwlpud Theodore Parker—Boanerges y weinidogaeth yn Boston—bob amser wedi ei addurno â blodau. Mae dagrau a gwenau yn ol y drefn Ddwyfol yn agos iawn at eu gilydd.

> "To thine own self be true,
> And it must follow as the night the day,
> Thou can'st not then be false to any man."

(*Cyfd.* W.J.)

ABOU BEN ADHEM A'R ANGEL.

(LEIGH HUNT.)

EFELYCHIAD.

Abou Ben Adhem (rhad i'w lwyth patriarchus)
Ddeffrodd un nos o freuddwyd hyfryd-felus;
Goleuni'r lloer a droai'r 'stafell glyd
Yn rhyfedd hardd, fel darn o ryw ail fyd!
Fe welai angel yn y pelydr milbleth,
Ar lyfr aur yn ysgrifenu rhywbeth.
"Pa beth a ysgrifeni?" holai'n ëon—
(Rhai hyf i gyd yw'r rhai sy' bur o galon)—
"'Rwy'n ysgrifenu enwau'r rhai anwylaidd
Sy'n caru'r Arglwydd."
Holai Abou'n wylaidd,
"A yw fy enw i'n eu plith?"
"*Nid felly!*"
Ond ni wnaeth hyn i Abou ddigaloni—
Anadlodd yn nghlyw'r angel hyn o weddi,—
"O leiaf, ysgrifena f' enw'n ffyddlon,
"*Fel un ag sydd yn caru f' holl gyd-ddynion.*"
Fe wnaeth yr angel hyny, a diflanodd!
Y nos ganlynol, eilwaith, ymddangosodd
Ar harddach ffurf; amlygodd iddo enwau
Y rhai a seliodd Duw â'i gariad gorau—
Ac er ei syndod, a'i drag'wyddol les,
Enw Ben Adhem oedd ar ben y rhes!

ISLWYN.

CAMSYNIED cyfoeth am ddedwyddwch, tebyg yw i gamsynied y moddion am yr amcan, neu dybied y gwnaiff cyllell a fforc roddi ystymog.

RHYFEL.

Nid yw rhyfeloedd etto wedi peidio, na'r son am danynt wedi darfod. Dywedodd Esaiah y proffwyd fod amser bendigedig i ddyfod, pan y byddai i'r Arglwydd farnu rhwng cenedloedd, a cheryddu pobloedd lawer, a phan y byddai i'r cleddyfau gael eu troi yn sychau, a'r gwaewffyn yn bladuriau; pan na fyddai i genedl godi cleddyf yn erbyn cenedl, a phan na ddysgant ryfel mwyach. Mae y broffwydoliaeth heb ei chyflawni hyd yr awr hon, ac ychydig, os nid dim, yw yr argoelion y bydd iddi gael ei chyflawni yn fuan; a chredwyf, os oes heddwch cyffredinol dros yr holl fyd wedi ei arfaethu, mai yn mhen oesau dirif yn y dyfodol y bydd i'r arfaeth gael ei sylweddoli, yn ol yr olwg bresenol ar bethau. Mae y natur ddynol mor gynhenllyd a rhyfelgar yn awr ag y bu erioed —mor barod i fyned dros dir a mòr i fanau mwyaf pellenig y ddaear, er mwyn tywallt gwaed, a chwanegu tiriogaeth at diriogaeth, ag y bu yn un o oesau mwyaf anwaraidd y gorphenol. Dywedir fod y byd wedi myned yn mlaen yn mhell mewn gwareiddiad, a bod y cynnydd a wnaed yn ddiweddar, ac a wneir yn bresenol, mewn gwyddoniaeth a chelfyddyd yn rhyfeddol, ac mewn gwir, y mae yn rhyfeddol. Mae dyn wedi myned braidd yn hollalluog a hollwybodol mewn rhyw gyfeiriadau, ond y mae cyfiawnder, trugaredd, a chariad, yn ddigynnydd a disylw yn y cysgodion; a chan nad beth ydynt y darganfyddiadau diweddar mewn gwyddoniaeth a chelfyddyd, y maent gan mwyaf oll yn wasanaethgar i achosion rhyfel a difrod. Mae rhai o'r dynion goreu trwy yr holl oesau wedi ysgrifenu a llefaru cyfrolau yn erbyn drwg rhyfel. Yr oedd Dr. Channing yn cael ei gynhyrfu hyd waelodion dwfn ei natur pan ystyriai erchylldod a direidi annhraethadwy maes y gwaed, ac y mae y darluniad a rydd o honynt, er yn mhell o fod yn gyflawn yn ddigon i ddeffroi y galon fwyaf adamantaidd i raddau o deimladrwydd. Ond er cymmaint ysgrifenodd Dr. Channing ac ereill, ac er holl nerth hyawdledd Bright, Richard, a llawer gyda hwynt, yn erbyn rhyfel, galw i'r maes o hyd mae'r udgorn; cedwir y cleddyfau o hyd yn loewon ac yn finiog, a'r llynges i farchog yr eigion bob amser yn barod i'r alwad! *Bella, bella, horrida bella!* Rhyfeloedd, rhyfeloedd, rhyfeloedd ofnadwy!

Mae rhyw "gwmwl bychan fel cledr llaw gwr yn dyrchafu" gerllaw y cyhydedd yn ngorllewinbarth Affrica, ac ofnir fod ystorm fawr i ganlyn. Mae'n debyg i'r faner Brydeinig, yn ddiweddar, gael ei thynu i lawr gan rai o'r Ellmyniaid yn y Cameroons, a gosod o honynt eu baner eu hunain i fyny yn ei lle. Efallai mai rhyw dipyn o branc oedd hyn, ac nad oedd y personau oeddent â llaw yn y gwaith yn meddwl dim drwg, ond y mae hyn wedi bod yn destyn siarad yn y ddau Dy o *Parliament*, ac ofnir gan lawer y bydd yn achlysur, os nid yn ddigon o achos, rhyfel rhwng Prydain Fawr a'r Allmaen. Gobeithio na wna mor lleied peth ddiweddu mewn tywallt gwaed, ond cofier gwr tyn yw Bismarck, anhyblyg i'r pen, a bod y Prydeinwyr, o honynt hwythau, i'r eithaf yn ffromi, os y meddyliant

fod y sarhad lleiaf wedi ei ddangos iddynt. Mae anrhydedd lluman Prydain Fawr yn bwnc mwy pwysig yn ei golwg nag, ysgatfydd, bwnc iachawdwriaeth ei dirif bechaduriaid! Fy ngweddi yw nid celed y wlad hon fuddugoliaeth, os aiff i ryfel, ond cadwed Rhagluniaeth hi rhag myned i ryfel am cyn lleied peth.

Mae rhyfel dinystriol rhwng Ffrainc a China wedi dechreu er ys tro, a bywydau lawer wedi cael eu haberthu yn barod, a meddiannau lawer, ffrwyth llafur a chwys gweithwyr, wedi myned yn ysglyfaeth, ac nid oes neb a wyr pa bryd y gwel yr ynfydion mai gwell yw gweinio'r cleddyfau a byw yn heddychol. Gwir nad oes a fyno'r wlad hon â'r rhyfel hwn, etto, dichon y bydd a fynom ni ag ef maes o law.

Mae Rwssia, y dyddiau hyn, yn ymddangos i ni mewn agwedd fygythiol tua chyffiniau Affghanistan. Mae ei milwyr yn eofnach nâ'u groesaw, a than arweiniad cadfridog sydd yn eithaf bonffaglwr; ac er y dywed y Czar a'i awdurdodau nad ydynt yn golygu un drwg, etto mae'r Cossack a'r Affghan yn rhy agos at eu gilydd ac yn enwedig felly pan y mae'r blaenaf dan arweiniad blaenor mor anystywell. Os tyr rhyfel allan rhwng Prydain Fawr a Rwssia nid oes proffwyd a wyr y canlyniadau. Mae ton y newyddiaduron yn ddigon anffafriol, ond mwy drwgargoelus fyth yw y parotoadau rhyfelgar, a wneir yn y ddwy wlad. Nid yw yr ugain miliwn o bunnau y dywedir fod Mr. Gladstone am eu cael ond dim mewn cydmariaeth i'r swm fydd yn rhaid ei gael os â y rhyfel hwn yn mlaen, oblegyd meddylir y bydd yn un o'r rhyfeloedd gwaethaf a mwyaf costus yn hanes holl oesau y ddaear, a hyny yn unig er mwyn penderfynu eiddo pwy yw ychydig filldiroedd ysgwar yn ngogleddbarth Affghanistan a elwir yn awr er mwyn ychwanegu pwys y peth yn "*Gate of India.*" Yn hytrach na gwastraffu bywydau a meddiannau, gwell, can mil gwell, fyddai gadael y peth i gyflafaredd appwyntiedig gan y partion mewn ymrafael i'w benderfynu fel y gwelent hwy yn deg a chyfiawn, ond fynychaf hyd yma o leiaf, mae myned i ryfel wedi cael ei ystyried yn fwy *honourable!* Wedi ysgrifenu y *paragraph* uchod, darllenais yn y newyddiaduron am heddyw fod y cymmylau duon oeddynt yn hongian uwchben y Cameroons ac Affghanistan yn cilio, a bod ambell lygeidyn o obaith na fydd rhyfel i gymmeryd lle yn y parthau hyny o'r byd. Ni a obeithiwn fod hyn yn wir.

Mae'n gwlad ni mewn digon a gormod o ddyryswch a chyfyngder yn barod yn mhlegyd helynt y Soudan, heb fod dan orfod clustfeinio am swn rhyfeloedd o gyfeiriadau ereill. Mae y Weinyddiaeth Ryddfrydig bresenol, a thrueni mawr yw hyny, fel pe byddai wedi cael ei rheibio yn yr achos hwn, ac nis gwyr yn iawn pa beth i wneuthur dan yr amgylchiadau. Rhaid mae â mwgwd am ei llygaid ac fel yn ddiarwybod iddi ei hunan y syrthiodd ar ei phen i'r trobwll. Mae y gwledydd amgylchynol yn synu am iddi erioed gael ei goddiweddyd gan y fath ddallineb, ac mae'r Ceidwadwyr yn chwerthin yn eu llewis, a rhai o honynt yn tori allan mewn nwyfgân orfoleddus am fod Gladstone wedi cael ei ddal yn hepian heb ystyried mymryn o'r "celanedd, mwrdd-dra a gwa'd" sydd wedi mwydo rhai parthau o ddiffaethwch sych a thywodlyd Soudan! A'r gwir yw, hyd nes iddynt weled

Gladstone a'i blaid wedi syrthio yn bendramwnwgl dros y dibyn, yr oedd y *Tories* yn eu cymhell a'u symbylu yn y blaen, ond y rhyfeddod yw, na buasai y Weinyddiaeth wedi dangos mwy o wyliadwriaeth a rhagwelediad, a hithau mor brofiadol o gynllwynion ei gwrthwynebwyr.

Addefir gan y rhan amlaf, os nid yn wir, gan bawb, nas gellir cyfiawnhau rhyfel, ond pan fyddo cenedl dan orfodaeth caled i amddiffyn *dyogelwch* ac *anrhydedd* ei gwlad. Ar y tir hwn, yr wyf yn gofyn a oedd dyogelwch ein gwlad hon mewn unrhyw berygl, pan benderfynwyd tân-belenu Alexandria, a phan ymladdwyd holl frwydrau yr Aifft a Soudan wedi hyny? Ffolineb ac anwiredd fyddai dweyd mai pryder am ddyogelwch Prydain Fawr a arweiniodd i'r holl drychineb hwn. Onid y ni mewn gwirionedd sydd wedi ac yn peryglu dyogelwch cenedlaethol eraill? Onid y ni sydd wedi ymruthro ar draws yr Arabiaid yn eu gwlad eu hunain, a'u lladd wrth y miloedd, heb y gall fod genym un cwyn yn eu herbyn, oddieithr i ni eu beio am sefyll i fyny yn erbyn gorthrymdreth a gwanc anniwalladwy y rhai a fynant eu hysglyfaethu? Ai nid tebyg i wirionedd yw fod awdurdodau ein gwlad ni mewn rhyw gydymdeimlad â'r *Egyptian Bondholders*, ac fod a fyno hyn â'r rhyfel anffodus presenol? Etto, gyda golwg ar ein *anrhydedd* fel cenedl, neu *honour*, fel ei gelwir, pa anrhydedd, attolwg, sydd wedi bod i ni oddiar ddechreuad y rhyfel hwn? Pa anrhydedd i genedl wareiddiedig, ddysgybledig, arfog, a Christionogol yn y fargen, yw lladd a llarpio pobl haner gwaraidd, llednoeth a diarfau, braidd, yn eu gwlad eu hunain, ac yn ymdrechu o blaid eu hiawnderau eu hunain? Pa anrhydedd i'r wlad hon yw anfon miloedd a'r filoedd o'i thrigolion, gwyr, gwragedd, a thadau plant, lawer o honynt i drengu ar faes y gwaed yn mhell o wlad eu genedigaeth, heb nemawr un canlyniad ond ychwanegu at rifedi'r gweddwon a'r amddifaid, ac at bwysau beichiau y trethdalwyr ydynt eisoes yn rhy drymion? Os anrhydedd yw rhywbeth fel hyn, gallwn i feddwl mai llawer gwell fyddai byw hebddo.

Ymddengys mae y gorchymyn a roddwyd i Arglwydd Wolseley ar y cyntaf oedd, gwaredu Gordon allan o Khartoum, a'i ddwyn yn ddihangol tua thref, a dim ond hyny. Geiriau y *commissiwn* a gafodd oeddent, "wedi cyflawnu hyn o orchwyl, nid oes un weithred ymosodol arall i gael ei chynnyg." Wel, aeth Gordon dan ddwylaw y Mahdi, ai filwyr i'w gartref tragwyddol a gwell cyn gallu o Wolseley roddi un cynnorthwy iddo. Bellach, dychwelyd tua thref ddylai Arglwydd Wolseley, a'i filwyr gyda ef, ac nid parhau y rhyfelawd hyd nes "*smashio*" y Mahdi, fel y dywedir. Byddai cael pen hwn i lawr yn sicr o gosti miloedd lawer o fywydau yn chwaneg, a byddai'r draul arianol hefyd yn ofnadwy. A chan nad yw Wolseley wedi dywedyd nnwaith na all ef a'i gatrodau encilio gyda pherffaith ddyogelwch, paham, gan hyny, na throant eu wynebau yn ol, yn hytrach na myned rhag eu blaen i beryglon mwy?

Nid wyf yn amheu nad oedd Gordon yn un o'r cymmeriadau teilyngaf yn y byd fel milwr, ond yr wyf yn methu deall, er hyny, pa

fodd yr oedd yn iawn i aberthu cymmaint o fywyd gwerthfawr ereill er mwyn achub *un*. Pe byddai y fath beth yn ofynol, mwy rhesymol fyddai rhoi un yn aberth dros lawer, debygwn i.

Yn olaf, meddyliwyf y byddai ein harch-esgobion ac ereill o weision proffesedig Tywysog Tangnefedd yn gwneuthur can' mil gwell gwaith, pe yr ymdrechent gael gwledydd y ddaear i fyw mewn heddwch â'u gilydd na cheisio perswadio y Tad cyffredinol i roddi'r fuddugoliaeth i arfau Lloegr neu ryw wlad arall, p'un ai cam neu cywir eu hachos. Mae hyn yn rhyfyg, yn ol barn AP IOAN.

YR EGLWYS A DIRWEST.

DARLLENWYD y papyr canlynol yn Nghapel Union-street, Caerfyrddin, mewn cyssylltiad â'r cyfarfodydd wythnosol perthynol i ganghen Gymreig y dref, Mr. Councillor John Lewis, Johnstown, yn y gadair.

Gofynodd Adsain i mi un dydd, Pa bryd, y rhoddir terfyn ar gyrddau dirwestol a gynhyrfant yn awr bob pentref, plwyf, a thref yn ein gwlad? Mewn atebiad, dywedais wrthi, "Pan y gwel Eglwys Dduw yn dda." Methodd Adsain a'm deall, ac eglurais iddi yn ngeiriau gwr parchedig o Lwynhendy. Dywedodd y gwr parchedig, "Oni b'ai proffeswyr crefydd, byddai baner dirwest ar ben y bryn." Credwyf fod pob diwygiad daionus a gawsom wedi tarddu, i raddau pell, oddiwrth lais yr Eglwys. Fel enghraifft, dyna darwgwnad *(bull-baiting)*, ymladdfeydd ceiliogod, ac amryw gampau barbaraidd ereill a ffynent un amser yn ein gwlad. Llais yr Eglwys roddodd derfyn, i raddau pell, ar y creulonderau yma. Pa beth yw llais yr Eglwys fel corff at feddwdod a'i ganlyniadau? Oer a difater, i raddau mawr. Yn nyddiau yr Hen Destament, eilun-addoliaeth oedd y pechod mawr; ond yn y dyddiau hyn, dywedir wrthym mai meddwdod yw. Onid truenus meddwl fod Eglwys y Duw byw mor oer a difater gyda'r mudiad hwn? Ddiaconiaid ac aelodau ein heglwysi, ïe, ac hyd y nod gweinidogion y Gair, taer appelwn atoch am eich cymhorth i ladd y gelyn hwn, sef meddwdod. Diangenrhaid yw profi i chwi mai o achos y gwirodydd meddwol, i raddau mawr, y gorlenwir ein carcharau, ein gwallgofdai, a'n tlotai. Pe appwyntiech chwi heno, Mr. Cadeiryddd, ddeuddeg fel dirprwyaeth—chwech llwyr-ymataliwr a chwech cymmedrolwr—i fyned at feddygon gwallgofdai ein gwlad, *governors* ein carcharau, ac at feistri ein gweithdai, beiddiaf ddweyd y cawsent saith neu wyth o bob deg yn yr adeiladau yma yn herwydd y gwirodydd meddwol. Onid yw hyn yn galw yn uchel ar Eglwys Dduw i roddi help llaw i'r diwygwyr dirwestol, y rhai weithiant mor egniol yn achos dynoliaeth? Deffrowch fel corff, Eglwys Dduw. Yr ydych wedi hepian yn ddigon hir, bellach. Na roddwch gyfle i'r byd siarad am danoch. Mae un aelod meddw yn yr Eglwys yn peri i ddwsin, y tuallan, fod yn oer ac yn ddifater yn achos ein Meistr Mawr. Mae'r byd yn dysgwyl i'r Eglwys roddi esiampl dda. Ai felly y mae? Yn y gwrthwyneb, yn fynych, y mae. Mewn araeth Seisnig a draddod-

wyd yn ddiweddar, dywedwyd fod gormod o bartiaeth yn yr Eglwys yn nglyn ag aelodau meddw. Gresyn meddwl am aelodau eglwysig yn meddwi ar ddydd Sadwrn, ac yn methu rheoleiddio eu hanifeiliaid; ond ar y Sul canlynol, yn myned â'r cwpan sanctaidd o amgylch y capeli y perthynant iddynt. Mae hyn yn sarhad ar grefydd. Am fod y dynion hyn yn gyfoethog ac yn dda i'r achos, ni chlywir mewn amryw o eglwysi braidd ddim am eu hymddygiadau; ond os syrthia y tlawd i'r un ffos, beth yw y canlyniad? Esgymmunir ef yn uniongyrchol! (Wrth gwrs, y mae eithriadau. Na ato Duw i mi ddweyd fod hon yn rheol gyffredin.) Gofynaf, ai teg yw hyn—y cyfoethog yn cael, fel pe b'ai, maddeuant uniongyrchol, a'r tlawd yn cael ei gospi? Dywed pob dyn synwyrol nad yw yn deg. Nid yn unig yn yr Eglwys y canfyddir hyn. Gwelir hyny yn nglyn â'r alwedigaeth yr wyf fi yn ddilyn. Os *esquire* neu foneddwr a ddirwyir o flaen yr ynadon am feddwdod, byth yn mron y gwelir ei brawf neu ei enw yn y newyddiadur; ond am y meddwyn tlawd, mae'r prawf a'r enw yn myned yn *holus-bolus* (?) Ond, diolch i Dduw, ni bydd gwahaniaeth rhwng y tlawd a'r cyfoethog, am eu gweithrediadau, yn y byd a ddaw. Y mae cyfraith wladol Lloegr yn rhoddi yr un gyfraith i'r tlawd a'r cyfoethog, a bydded i'r Eglwys, fel rheol, i'w hefelychu yn hyn. Trwy ddylanwad diwygwyr dirwestol ein byd y mae yr Eglwys yn dechreu diwygio, a rhwydd hynt iddi ddywedaf o'm calon. Onid syn i rai o honoch oedd clywed o enau y darlithydd enwog, Plenydd, pa ddydd, fod y Brahminiaid, er yn baganiaid, yn rhoddi gwers i Gristionogion o barth sobrwydd. Mewn papyr a ddarllenwyd gan Miss Haslam, yn y Winchester Diocesan Conference pa ddydd, dywed:—"And what do the poor heathen, that we pity so much, say of us, Christians? That they never saw such drunkenness among their poor, ignorant kindred as adorns our high civilization; that they will have no Christianity, because Christians are the men who bring the *fire-water* to them." Onid yw y ddadl, fel y darllenasom yn ddiweddar, yn galw yn uchel ar Eglwys Dduw i daflu ei choelbren yn fwy egniol at yr achos clodwiw hwn. Gofynodd y pagan i'r cenadwr, "A yw y meddwyn yna yn Gristion?" "Nac yw," medd y cenadwr; "nid yw yn Gristion." Ai nid o Loegr y mae wedi dyfod? "Ie," medd y cenadwr. Wel, ynte, medd y pagan, "paham na convertwch ef yn gyntaf o flaen i chwi dreio ein converto ni." Gweddiwn ynte ar i fod aelodau yr eglwys i ddiwygio, a rhoddi help llaw i ni. Yr wyf yn credu fod grym aruthrol mewn gweddi ddefosiynol. Am y gweinidogion, y diaconiaid, a'r aelodau ag sydd yn llwyrymatalwyr, ac yn gweithio yn y mudiad, dywedwn oll, "Hir oes iddynt, a Duw a'u bendithio." Nid llwyrymatalwyr mewn enw yn unig y mae y mudiad hwn yn ymofyn, ond personau byw, a chariad at ddynoliaeth. Na feddylied neb o honoch mai cyfeirio yn unig at y rhyw wrywaidd yr ydym yn ein happel. Y mae meddwdod hefyd yn mhlith gwragedd, ac yn cyflym gynnyddu. Y mae gweled dyn meddw yn ein heolydd yn beth truenus; ond gweled benyw felly yn fil mwy truenus. Dywedais fod meddwdod yn mhlith

gwragedd yn cynnyddu; nid haeriad yw hwn, ond ysywaeth gwirionedd yw, fel ag y caf brofi i chwi yn uniongyrchol. Dywedodd Canon Scott Holland pa ddydd yn y Corn Exchange, Oxford, fod meddwdod wedi lleihau yn mhlith gwrywod o'r genedl hon, ond yn ennill tir yn gyflym yn mhlith y benywod. Dyna farn gweinidog yr efengyl i chwi. Hefyd, dyna farn Caplan carchar Clerkenwell am y dosparth y cyfeiriwn ato, nad oedd dim llai na phedair mil, saith cant, a phedwar ar ddeg ar ugain o wrywod (4,734), a naw mil, tri chant, ac un ar bymtheg o fenywod (9,316) mewn carcharau am feddwdod. Gynt, yr oedd saith gwryw i bob benyw yn y carchar; yn awr, nid oes ond tri gwryw i bob benyw. Dywed hefyd fod chwech cant o fabanod yn cael eu mogi mewn un flwyddyn gan famau meddw. Rhif y marwolaethau yn mhlith plant y meddwon, meddai, yw tri ugain a phedwar yn mhob cant. Aelodau benywaidd yn Eglwys y Duw byw, deffrowch; y mae gwaith yn aros i chwithau. Y mae rhyw reswm am y cynnydd hwn yn mhlith benywod. Fy marn onest i yw, Mr. Cadeirydd, fod y cynnydd aruthrol hwn yn gyfrifadwy i'r *grocer's license* sydd yn britho ein gwlad; a phan ddelo y *bill* etto o flaen y Senedd er ei diddymu, bydded i ni yn Nghaerfyrddin, yn gystal a phob tref arall, barotoi *petition* enfawr o enwau, benywod, yn gystal a gwrywod. Cafodd y trwyddedau hyn eu caniatau gan ddeddf Seneddol a basiwyd yn y flwyddyn 1860, er gwerthu gwin a chwrw gan *grocers*, *confectioners*, a siopwyr ereill. Yr oedd, y mae yn ddios genyf, gan y person a wnaeth yr *Act* dan sylw, amcan mewn golwg er lleihau yfed yn y tai cyhoeddus; ond beth yw y gwir ganlyniad? Y maent yn diraddio ein gwragedd a'n merched ieuainc yn fil mwy na'r tai cyhoeddus. Y mae yr esgusawd mor ardderchog wrth fynychu y *gin dens* hyn. Meddylir fod yn Mhrydain Fawr a'r Iwerddon dair mil ar ddeg, tri chant a deg a thri ugain (13,370) o'r trwyddedau dinystriol hyn. Y mae gofyn i'r Eglwys i godi ei llais yn fuan er diddymu yr *Act* hon. Pe bai amser yn caniatau, dyfynem i chwi rai o'i chanlyniadau—canlyniadau a barai i chwi waeddi allan, "Mawr yw Diana meddwdod yn mhlith ein gwragedd." Yn nglyn â'r trwyddedau dan sylw, y maent hefyd yn fagl enfawr i forwynion ein gwlad, ac yn enwedig yn amser y gwyliau, pan fyddo y *grocers* yn eu hanrhegu â photelaid o win neu wirod fel commissiwn ar bryniad y teulu yn ystod y mis a aeth heibio. Yr oedd *housemaid* yn un o dai Llundain yn methu cysgu ar un nos Sul, yr oedd ganddi ragfeddyl-ddrych fod rhywbeth i ddygwydd. Maes o law, fe glywai ganwyll-bren yn cwympo, ac yn fuan ar ol hyn gwelodd y *cook*, benyw 58 mlwydd oed, yn cerdded mewn fflamau, a safodd wrth wely yr *housemaid* heb swn na gair. Yr oedd yn feddw mawr, ac yn hollol anwybodus o'i chyflwr arswydus. Yn fuan, cwympodd i lawr yn farw, wedi llosgi i farwolaeth. Yr oedd yn sobr pan ymadawsant â'u gilydd am y nos, ac yr oedd, yn ddiddadl, wedi bod yn yfed yn ddirgelaidd yn ei hystafell ei hun. Y mae eisieu mwy o'r *Women's Temperance Unions* yn ein gwlad. Y mae un yn Llanelli, ac wele awgrym i ni yn Nghaerfyrddin. Y mae eisieu mwy o Miss Haslams, Miss Wat-

sons, Mrs. Cassons, a Lady Hopes yn ein gwlad, pa rai sydd yn gweithio mor ddyngarol yn yr achos hwn. Pa ddydd yma yn Mryste, rhifwyd mewn un noswaith 36,000 o fenywod yn mynychu y tafarnau. Na feddylied neb o honoch fy mod yn cyfeirio fod pob person ag sydd yn mynychu y dafarn yn myned yno er mwyn yfed yn unig. Fel rheol, y mae 99 o bob 100 yn myned yno felly. Pa fodd y mae menywod yn sefyll o ran sobrwydd yn ein tref ein hunain? A ydynt hwy yn euog o'r gwarth hwn? Er mai yr ochr ddu yr wyf wedi ddangos heno, y mae yn hyfrydwch genyf eich hyspysu fod ochr oleu hefyd i'r cwestiwn hwn. Amser ni chaniata i mi heno fanylu arno. Rhywbryd etto. Na ddiffygiwn weithio, fy nghyfeillion, am mai "dyfal donc dyr y garreg." Yr wyf yn credu yn gadarn yr ennilla sobrwydd y dydd mewn amser. Ac wrth derfynu fy llith anmherffaith, bydded i ni oll i weddio, ac i gadw yn ein cof ein harwyddair, "Mewn cariad at bawb, na dygasedd at neb." Rhwydd hynt i sobrwydd, dywedaf, ac yn enwedig yn Eglwys Crist.

Caerfyrddin. DANIEL AB IFAN.

MARI FACH A'I MAM.

(*Parhad o tudalen* 70.)

"Rhaid i chwi ymdrechu bob amser i fod mor dda ag y galloch, a mwyaf y byddo eich ymdrech i wneyd felly, mwyaf y bydd Duw i'ch cynnorthwyo, ac y byddwch i deimlo yn ddedwydd yn eich meddwl eich hunan; ond pan y byddoch yn gwneyd cam â mi neu â rhywun arall, y mae yn rhaid i chwi fod yn edifar am hyny—cyffesu hyny i Dduw, ac ymdrechu peidio gwneyd y fath beth mwy, yna y mae Duw wedi addaw maddeu i chwi, fel y gwyddoch i mi wneyd y dydd o'r blaen."

"Yr wyf yn falch eich bod wedi dywedyd wrthyf, Mam, heb hyny, ofnwyf na fuaswn byth gyda'r Iesu. Modd bynag, ymdrechaf fod yn dda bob amser."

"Gwnewch felly, fy anwyl, a bydd i chwi ddysgu mai bod yn dda yw bod yn ddedwydd; cewch deimlo bob amser yn ddymunol yn eich meddwl pan ydych yn gwneyd yr hyn sydd iawn, a bydd i Dduw a'r Iesu eich caru. Cofiwch fod Duw yn eich gweled bob amser, ac na ellwch ei dwyllo Ef, na gwneyd dim heb yn wybod iddo Ef. Bydd i'r Iesu hefyd eich caru chwi, os ymdrechwch fod yn dda. Ac er eich bod chwi a minau, ac efallai bawb creill, ar rai prydiau, yn gwneyd yr hyn sydd gamsyniol, etto, os na pharhawn i wneyd felly, y mae Duw mor gariadus atom, fel y bydd iddo i faddeu y gorphenol, a'n helpu i wneyd yn well yn y dyfodol."

"Ymdrechaf foddio Duw bob amser, a'r Iesu, a chwithau, Mam."

"Gobeithiwyf felly, fy anwyl; ac yn awr, gadewch i ni fyned i'r ardd, a gweled y blodau."

A. U.

Y DDUWINYDDIAETH NEWYDD A HEN.

Fel gyda golwg ar dduwinyddiaeth, felly gyda golwg ar bynciau ereill. Y mae parti blaen-fynedol eithafol, a pharti ceidwadol eithafol. Y mae aelodau Eglwys ein gwlad yn rhanedig i dri dosparth :— Yr Eglwys Uchel, yr Eglwys Isel, a'r Eglwys Lydan. Y mae rhai dynion nad ydynt byth yn gorphwys, ac ymddengys eu bod yn gweithredu oddiar y dybiaeth fod pob cyfnewidiad yn golygu cynnydd. Mae ereill, o'r tu arall, y rhai ydynt yn cael eu dychrynu gan bob awgrymiad o symmudiad neu gyfnewidiad, ac yn gweithredu fel pe buasai yr eglwys er ys canrifoedd wedi dyfod at gyflawn ddealldwriaeth o wirionedd Duw, ac nad oes gan ddyn i'w wneyd yn y dyfodol ond glynu yn unig wrth yr hyn sydd wedi ei dderbyn yn barod.

Yn awr, ymddengys i ni yn afresymol i ddywedyd mai duwinyddaeth yw yr unig bwnc mewn perthynas i'r hwn ni all un cynnydd neu flaenfynediad gymmeryd lle. Diau fod llawer o wirioneddau canolog sydd yn rhwym o gael eu hystyried fel yn annghyfnewidiol; ond hyd y nod gyda golwg ar y rhai yma, gall fod rhai gwelliantau yn y modd o'u hystyried ac edrych arnynt. Pwy all gymmeryd arno ei hunan i ddywedyd fod y meddylddrych am Dduw sydd yn ffynu yn yr Eglwys heddyw yr un a ffynai hanner can' mlynedd yn ol? Pryd hyny telid mwy o sylw i briodoleddau mwy llym neu sarug y cymmeriad Dwyfol, tra yn bresenol y mae meddyliau dynion yn cael eu sefydlu yn benaf ar dadoldeb Duw, a'i holl agweddiad o gariad a thosturi. Gall fod rhai yn meddwl fod yn hyn ymadawiad oddiwrth y gwirionedd, ac efallai eu bod yn iawn i'r graddau y mae y gwrthweithiad wedi bod yn rhy eithafol, a bod yn y mynediad yn mlaen ryw wirionedd gwerthfawr wedi ei annghofio dros amser, os nid wedi ei golli. Ond modd bynag, y mae cyfnewidiad wedi cymmeryd lle, a chyfnewidiad sydd wedi effeithio hyd y nod ar galon duwinyddiaeth, ac wedi gosod lliw gwahanol ar ein meddylddrychau parth y rhan fwyaf o athrawiaethau, heblaw yr hyn ydym wedi cyfeirio ato. Y mae rhai dynion ydynt yn ymddangos i gau allan eu meddyliau crefyddol o diriogaeth rheswm yn gyfangwbl.

Y mae yr opiniynau y maent wedi eu derbyn, efallai oblegyd eu bod wedi eu haddysgu ynddynt, neu eu bod yn ffurfio y gredo draddodiadol yn yr eglwys i'r hon y perthynant; y maent yn gwrthod chwilio drostynt eu hunain, ac y mae unrhyw amheuaeth o'u hawdurdod o du ereill yn cael ei ystyried ganddynt yn ddim llai braidd nag annuwioldeb. Y maent, fel y gellid meddwl, yn achwynwyr, neu yn cymmeryd yr olwg dduaf a gwaethaf ar bob peth, ac nid ydynt yn cael allan ddim ond dirywiad a dadfeiliad yn nghyflwr presenol yr Eglwys. Y mae y ddysgeidiaeth y maent yn wrando arni yn ymddangos iddynt hwy fel wedi ei rhidyllu gan heresi, ac y mae pob meddylddrych nad yw mewn perffaith gydgordiad a'r hyn a feddyliant hwy yn eu dyddiau boreu yn cael ei ystyried fel ymadawiad newydd oddiwrth y gwirionedd. Y mae yr Eglwys a'r byd yn yr un modd allan o le, ond yr Eglwys yn neill-

duol felly, ac y maent yn dyfeisio pob ffordd i wneyd eu hunain yn ofidus a thruenus, ac yn gwneyd eu goreu i beru i ereill i fod yn resynus yn nghylch drygau y maent yn gofidio am na allant eu gwella. Y mae gwrthdystiad ac ymresymiad yn gymharol ddiddefnydd. Gwaith ofer yw eu hadgofio eu bod hwy sydd yn proffesu bod yn Brotestaniaid o Brotestaniaid yn amlygu yr un yspryd ag Eglwys Rhufain yn ei ffurf waethaf—yspryd afresymol a phenboethder annyoddefol. Llai fyth yr ymddangosant yn alluog i ddeall fod eu hamddiffyniad dychymygol o'r efengyl mor groes i'w gwir lês ag ymosodiad mwyaf gelyniaethus ei gelynion chwerwaf. Ni fyddai yn waith hawdd i wneyd mwy o niwed i wirionedd Duw nag i uno neu ei gymmysgu â'r camsyniadau, neu y cyfeiliornadau gyd â'r esponiad o hono sydd yn myned i mewn ac yn gymhlethedig â holl gyfundraethau dynol, ac i honi fod yn rhaid iddynt sefyll neu syrthio gyda'u gilydd. Y mae y gwaith o "beidio rhoddi i fyny," pan yn cael ei gario allan mewn perthynas i bob meddylddrych neu sefydliad sydd wedi cael ei dderbyn fel yn iawnffyddol, yn Annghristionogol. Yr hyn ydym ni yn ymofyn ydyw gweled y gwirionedd, ac aberthu unrhyw haerdyb, pa mor barchus bynag y gall fod ar gyfrif ei oedran, neu pa mor dyner bynag, neu hyd y nod sanctaidd bynag, y cyssylltiadau trwy y rhai y dichon i'r cyfryw fod yn anwyl i'n calonau ein hunain. Ein hawydd ni yw, bod yn weision ffyddlon i'r gwirionedd, nid i draddodiad, pa un ai ein tadau Puritanaidd neu yr holl Eglwys Gatholig. Y mae genym yr un hawl rhoddedig Ddwyfol i brofi pob peth a'n cyndadau o'n blaen, a dim ond pan y byddom yn arfer y cyfryw yn unig y gallwn fod yn ffyddlon i'w traddodiadau gwir a goreu hwynt.

Bid sicr, nid oes achos i ni ofni cydnabod y ffaith fod gan yr Arglwydd etto fwy o oleuni a gwirionedd i dori allan o'i air. Ein rhagorfraint ni yw ei dderbyn a'n dyledswydd arbenig yw ei geisio yn barhaus. Yr ydym nid yn unig yn cael caniatad, ond yr ydym o dan rwymau sobr i chwilio drosom ein hunain ac arfer y cynneddfau y mae Duw wedi ein donio ni â hwynt; ac mor bell ag y byddom yn gommedd gwneyd felly, a chaniatau ein hunain i gael ein cyfyngu gan gadachau pleutynaidd a chymmanfaol, yr ydym yn mogi yspryd ffydd fyw a gwir Gristionogol.

NONCONFORMIST.

NODYNAU GWASGAROG.

AELODAU EGLWYSIG.

MAE lluaws o'n pobl ag ydynt wedi ymaelodi yn ein heglwysi hwnt ac yma, o herwydd amgylchiadau, yn gorfod gadael eu cartrefi a'u hen aelwydydd crefyddol, a myned i ardaloedd lle nad oes yr un eglwys yn gyfleus iddynt; felly yn syrthio i ddifaterwch a diofalwch crefyddol. Ar gyfer y cyfryw dylai YR YMOFYNYDD fod yn neillduol werthfawr.

Awgryma iddynt hen ddyledswyddau, a hen brofiadau melusion a gwerthfawr; helpia i gadw yn fyw hen deimladau cyssegredig, a deffroa hen adgofion hyfryd y bydd yn dda gan eu calon am danynt—am dad neu am fam, am frawd neu am chwaer, am gyfaill neu gymmydog sydd, feallai, wedi pasio hwnt i'r llen, ond sydd etto yn parhau yn wrthddrych cof mor fyw ac mor barchus ag erioed. Cynnydder yr hen linciau anwyl yma, ychwaneger atynt yn mhob modd. Nis dichon dim fod yn fwy gwir werthfawr i ddyn ar ei daith trwy hyn o fyd. Carem yn fawr gael ar ddeall fod ein pellenigion yn rhyw fodd o ran yr yspryd yn ceisio bod yn bresenol gyda ni, ac yn dangos mewn ffordd sylweddol eu bod yn cofio am eglwys eu hieuenctid. Nid yn gymmaint i drethu eu hunain, ond yn unig i wneuthur yr aberth hono fyddo yn cyfranu at nerth y bywyd ysprydol. Yr wyf yn credu y gwnelai lês annhraethol i rai o'r hen aelodau pellenig yma pe gwnelent hi yn rheol i anfon eu hatling fechan i drysorfa eglwys eu mabwysiad erbyn pob Sul cymmundeb. Helpiai hwynt, o bossibl, i ymgadw yn mhell oddiwrth lithrigfa pechod a dinystr. Y dyn a esyd ei lygad ar lwybr ei ddyledswydd, ac a wnelo ymdrech i gadw yn agos ato, bydd bendith Duw ddim yn mhell oddiwrtho. Nid o herwydd rhodio llwybr dyledswydd mae edifeirwch yn dyfod. Nid oes neb oddiar derfyngylch bywyd, pan yn adolygu llwybr ei ymdaith, yn cael achos edifeirwch am un da a wnaeth, am un ymdrech ar ol perffeithrwydd, am un cais i lesoli ei gyd-ddyn, nac am un gwasanaeth mewn cyssylltiad â chrefydd. Ffyddlondeb i'r bywyd uwch a sicrha i ni yr heddwch sydd uwchlaw gwybodaeth.—S. N. S.

"PA BRYD Y GANWYD IOLO MORGANWG."

Mae boneddwr parchedig wedi gofyn y cwestiwn uchod i ni, gan gyfeirio at y dyddiad a roddir yn "Emynau o Fawl a Gweddi," sef 1745. Dywed ei fod ef ei hun wedi ei weled yn llawysgrif Iolo, iddo gael ei eni Mawrth y 10fed, 1747 (O.S.) Dywed yn mhellach fod Iolo a Margaret ei wraig wedi priodi, ac wedi eu cofrestru yn Eglwys St. Mary, Gorphenaf y 18fed, 1781. Ganwyd Elizabeth ei ferch hynaf Mai y 4ydd, a chofrestrwyd hi Mai y 9fed, 1790, a bu farw Ebrill y 4ydd, 1793. Tebyg i ni gymmeryd y dyddiad allan o'r llyfr nesaf at law ar y pryd, gan annghofio fod un amheuaeth ar y mater. O leiaf, cawn y dyddiad 1745 yn "Ngeiriadur Bywgraffyddol" Josiah Thomas Jones (Cyfrol II., 643). A deallwn oddiwrth hanes "Iolo Morganwg" yn Yr Ymofynydd am 1852, tud. 79, fod Williams yn ei "Eminent Welshmen," yn rhoddi yr un dyddiad, sef 1745. Dywed Stephens fod Iolo ei hun, yn ei ragymadrodd i'r *Lyric Poems*, "yn dweyd ei fod yn 23 yn 1770; ac, o ganlyniad, y mae yn fwy tebyg mai yn y flwyddyn 1747 y cafodd ei eni." Mewn erthygl werthfawr ar y "Welsh Language and Literature," yn y *Penny Cyclopædia*, dywedir fod Iolo wedi ei eni yn nghylch (*about*) 1747; a bod y Parch. Evan Evans (Ieuan Brydydd Hir), am yr hwn y mae amheuaeth hefyd,

wedi ei eni 1731.* Yn ol yr ysgrif ar garreg ei fedd, nid yw hono, fodd bynag, ond peth diweddar, gan fod Stephens yn dywedyd yn 1853, nad oedd un garreg ar ei fedd y pryd hwnw, fe anwyd Iolo Mawrth y 10fed, 1746 (hen gyfrif). Gweler copi o'r ysgrif yn YR YMOFYNYDD am Awst, 1884, tud. 183. Mae Stephens yn dyfynu o lythyr Iolo (a T. D. Thomas ar ol Stephens) felhyn :—"Y mae Edward Williams, yr hwn sydd yn awr yn yr unfed flwyddyn o'i oed yn ol pedwar ugain, wedi ei gyfyngu i'r tŷ er ys tair blynedd, yn efrydd (*cripple*) hollol." Yn mis Rhagfyr, 1826, bu Ab Iolo yn ymweled â'i dad, ac ar y 18fed o'r un mis, yn y prydnawn dywed Stephens, "Bu farw hen fardd Morganwg yn ei bedwar ugain ac un flwydd." Yr oedd yn hir cyn hyny wedi clywed *Three Warnings* Mrs. Piozzi † yn swnio yn ei glustiau, ac yn ei alw allan o'r byd hwn; ac wedi dywedyd, "Clywaf swn traed yr angeu yn fy nghanlyn." Pa bryd y ganwyd Iolo? Os ganwyd Iolo yn 1747, mae yn amlwg nas gallai fod yn ei 81 mlwydd yn marw. A ocs dim modd cael copi o *register* ei fedydd? Carem yn fawr pe gwnelai rhywun gais i symmud yr amheuaeth hwn ymaith.—GOL.

ADRODDIADAU EGLWYSIG.

Yr ydym yn credu y byddai rhai o'n heglwysi yn well pe cyhoeddid adroddiad o'u gweithrediadau yn achlysurol. Yr ydym newydd dderbyn yr ail adroddiad y mae yr eglwys newydd sydd dan ofal ein cyfaill brwdfrydig a gweithgar, y Parch. J. Ll. Jones (All Souls Church, Chicago,) wedi ei gyhoeddi, yr hwn sydd yn dangos fod yr eglwys yma yn fyw, ac yn gwneuthur ymdrech mawr i adael ei hol er da ar yr ardal y mae hi ynddi. Mae yma Ysgol Sul flodeuog, ac ysgol gân, a phwyllgorau cyssylltiol; mae yma gymdeithasau cenadol ac elusenol yn gwneuthur gwaith da; mae yma glybiau hefyd, lle mae pobl ieuainc yn efrydu gweithiau llenyddol ein hawduron goreu, dan arolygiaeth pwyllgor o fenywod Ceir yn yr adroddiad, yn ychwanegol i'r manylion uchod, *address* cyflawn o aelodau ei eglwys; nodwedd bwysig mewn eglwysi trefol er hwylusu gwaith y gweinidog, a chreu undeb rhwng y gwahanol aelodau a'u gilydd. Dymunwn lwyddiant mawr i'n cyfaill Jones, ac i'r eglwys sydd dan ei ofal.

Y GOG.

CROESAW, gog odidog, dy adail—coed,
Croesaw ceidwad glasddail;
Croesaw pencerdd bron werdd-ddail,
Croesaw Duw—cares y dail.

MORUS CYFFIN (1584).

---

* Dywed y boneddwr rhag-grybwylledig ar sail ysgrif yn llaw Ieuan ei hunan a welir yn yr Hengwrt MSS. yn Peniarth, fod Ieuan wedi ei eni Mai 20, 1731 (O.S.)

† Y Tri Rhybudd oeddynt Cloffi, Byddarwch, a Dallineb.

Manion a Hanesion.

Dywedir y bydd y Cyfieithad Diwygiedig o'r Hen Destament allan yn fuan ar ol y Pasg. Gobeithiwn yr edrycha'r cynnulleidfaoedd fod gan bob gweinidog a phob myfyriwr gopi.

Yr oedd Robert Chambers yn talu am sedd mewn dwy eglwys wahanol, canys byddai pobl garedig yn casglu, pan fyddai yn absenol o un, ei fod yn bresenol yn y llall.

Yr ydym yn darllen fod y Parch. E. Ceredig Jones ar fin ymsefydlu yn Chowbent.

Bwriedir cynnal cyfarfod mawr yn Llundain, Ebrill 2, i brotestio yn erbyn cario rhyfel y Soudan yn mhellach. Cadeirir gan Bradlaugh. Mae yn swnio yn rhyfedd pan y mae lluoedd Cristnogion Llundain yn bleidiol i'r rhyfel, i weled Charles Bradlaugh yn arwain byddin heddwch.

IFAN DAVIES O'R GWERNLLWYN.

[Er Cof.]

Wylo sydd i'w wel'd am osod—ein hen
Gyfaill hoff mewn beddrod;
Iachus ffydd y nef uchod
Wnaeth garu tra bu yn bod.

Ni wnai dwyll am un ammod—o un mab
Na merch fu'n adnabod;
Ar y gair agorai 'i god,
Yn deilwng i'w gyd aelod.

Ein Ifan gu oedd ŵr gangen,—o'r bur
Beraidd, hardd Winwydden;
Niwl ar niwl sy'n toi y nen,
O'i golli yn Gellionen.

Os gwnaeth ein ffrynd fyn'd i'w fedd,—ei
Fydd anwyl uwch llygredd; [enw
Yn ei awr daw Brenin hedd
I'w alw i orfoledd.

Trebanos. D. W. Davies.

Llwynrhydowen.—Dydd Gwener, Chwef. 27, cynnaliwyd Gwyl De a Chyngherdd flynyddol Ysgol Sul a chynnulleidfa y capel uchod. Yr oedd y byrddau wedi eu trefnu yn Long Room Alltyrodin Arms, a chynnaliwyd y cyngherdd yn yr Hen Gapel. Nodwedd neillduol a newydd yr achlysur hwn oedd y *Fairy Tree*, wedi ei llwytho ag anrhegion gwerthfawr i blant ac athrawon yr Ysgol Sul. Yr oedd yr anrhegion yn 105 mewn rhif. Mae yr Ysgol Sul yn ddyledus am y *treat* yma i garedigrwydd plant y diweddar John Jones, Gellifaharen, o anwyl goffadwriaeth. Cyflwynwyd yr anrhegion gan Mrs. Jones, yn cael ei chynnorthwyo gan Miss Jones a Miss Howell, yn nghanol arwyddion o'r boddlonrwydd uwchaf ar ran y derbynwyr. Capt. Davies, Brownhill, oedd y Cadeirydd yn gystal ag arweinydd y cyfarfod; a chyflawnoddd ei waith yn rhagorol fel arfer. Da oedd genym weled y Parch. J. Davies, Alltyplaca, yn bresenol. Mae cynnulleidfa y Llwyn, yn gystal a'u gweinidog, wedi bod o dan rwymau neillduol iddo am lawer cymhorth yn ystod y ddwy flynedd ddiweddaf. Derbynied ein diolchgarwch gwresocaf. Cydnabyddwn hefyd ein diolchgarwch i Mr. John Jones, Alltyrodin Arms, a'i ferch Mrs. Davies, am fenthyg y Long Room ar gyfer y Te Parti, yr hyn a wnaethant gyda'u sirioldeb a'u caredigrwydd arferol.—W. J.

Gellir casglu oddiwrth y *Times* mae lle canolig sydd i wyr y cwrw yn Khartoum. Dywed ar sail tystiolaeth rhyw areithiwr yn y wersyllfa Brydeinig yn Korti, fod y cwrw yn ddoler y botel.

Ymddengys fod hyd y nod y *Christian Life* wedi ei gyffro â'r yspryd Jingoaidd. Drwg iawn genym hyn. A oes rhywbeth yn awyrgylch Llundain yn achosi hyn?

Mae pobl Pennsylvania yn ceisio pasio mesur i gael fflangellu wrth bost y dynion sydd yn curo eu gwragedd.

Gesyd y blynyddau eu cofnodion ar y galon ddynol megys ag y gwnant ar y coedydd, mewn cylchoedd dirgel o dyfiant nas dichon un llygad eu gweled.

Yn ol tystiolaeth y Tori gwyllt hwnw, James Lowther, y gau-Grist yw Mr. Gladstone. Nid oeddym wedi clywed am alluoedd duwinyddol Mr. Lowther o'r blaen.

Mae Cristnogion o bob enwad yn siarad yn uchel iawn am Channing ac am ei weithiau. Mae hyd y nod un offeiriad Pabaidd wedi galw ar Mr. Spears i ddatgan y pleser mae wedi gael wrth ddarllen gweithiau Channing. Pa faint o ddarllenwyr Yr Ymofynydd sydd yn hoffi ei ddarllen?

GORLAWENYDD.

Llawenydd y galon, pan uchaf, pan orau,
Fel enfys y cwmmwl dan heulwen y borau,
Sy'n rhwym o gael dangos ei hunan mewn
dagrau.—*Deincodyn.*

Cyfarfod Birmingham.—Cynnelir Cyfarfod Cenedlaethol yn Birmingham, Ebrill 14, 15 a'r 16, tebyg i'r un a gynnaliwyd yn Lerpwl dair blynedd yn ol. Dymunwn iddo gymmaint o lwyddiant â hwnw. Credwn i hwnw fod yn foddion cryn adfywiad i'r enwad, a gobeithiwn y gwnaiff ein cynnulleidfaoedd etto alluogi eu gweinidogion i fyned i gyfarfod Birmingham i gael ychydig adgyfnerthiad ysprydol. Mae digon o'i eisieu—eisieu rhywbeth i gadw eu calon i fyny, a'u symbylu i fwy o ymdrech i haeddu y llwyddiant a ymddengys fynych yn hir yn dod.

Mae y *Cambrian Daily Leader* wedi cyhoeddi pregeth yn ddiweddar o waith y Parch. J. E. Manning, M.A., yn ymdrin â'r pwnc o "Anonestrwydd Masnachol."

PRIODAS.

Chwef. 27, 1885, yn Brondeifi, Llanbedr, John Pates, Coedmorfach, a Rachel Williams, Llanddewi, gan y Parch. R. C. Jones.

Marwgofion.

Gorphenaf yr 2il, 1884, yn 81 oed, Thomas Thomas, gof, Trafle, Llanwenog. Adnabyddid ef yn mhell ac yn agos fel *nailer* braidd digymhar. Yr oedd yn enwog am ei arabedd miniog, ac yr oedd hyny yn gystal â'i fedr yn ei gelfyddyd, wedi gwneyd y gongl neillduedig lle y trigiannai yn gyrchle nifer luosog o gwsmeriaid. Hen wr parchus ydoedd, ag iddo "air da gan bawb, a chan y gwirionedd ei hun," ond "ei le nid edwyn ddim o hono ef mwy." Y Sadwrn canlynol trosglwyddwyd y llwch i'r llwch, y lludw i'r lludw, i orphwys yn mynwent Capel Fadfa, y Parch. J. Davies, Alltyplaca, yn gweinyddu. (Drwg genyf, o herwydd rhyw gamddealltwriaeth, nad ymddangosodd sylw o'r farwolaeth uchod yn gynt.—W. J.)

Hydref yr 2il, 1884, o'r dyfrglwyf, David T. Jones (Dafydd Tomos Shon), gynt o Benyrheolgerryg, Merthyr, ond yn ddiweddaf Frosty Valley, America, yn 66 mlwydd oed. Mab ydoedd i Thomas Jones (Tomos Shon), o gymmydogaeth Merthyr Ganwyd ef yn Cefncoedycymmer, a phan yn ieuanc cerddodd am flynyddau gyda'i fam i'r Hen Dy Cwrdd bob Sul, hyd nes yr ymfudodd i America oddeutu 1845. Yr oedd yn ganwr gwych, ac yr oedd yn aelod o gôr enwog Mr. John Thomas (Ieuan Ddu), Merthyr. Oddiwrth bapyrau America, deallwn fod ei iechyd yn wael er ys blynyddau o herwydd diffyg anadl a pheswch. Gadawodd weddw ar ei ol, ac hefyd fab maeth, yr hwn a fu ac y sydd yn dyner iawn o'r hen bobl. Y mae chwaer iddo yn byw ar Benyrheol, ac yn aelod ffyddlon yn H.D.C. Cefn.

Chwefror yr 21ain, 1885, William Davies Maestroiddyn Fawr, Caio, Swydd Gaerfyrddin, yn 50 oed. Yr oedd y cyfaill siriol hwn wedi colli ei iechyd er ys oddeutu tair neu bedair blynedd. Dadfeiliodd ei babell yn raddol, hyd nes myned o hono yn rhy wan i ddyfod o'i anneddle. Cafodd ei garcharu yn ei gartref am lawer o fisoedd cyn ei ymadawiad â'r fuchedd hon. Dyoddefodd ei gystudd yn dra ymostyngol ac amyneddgar trwy ystod ei afiechyd blin a nychlyd. Nodweddid ef gan hawddgarwch fel dyn gonest, hynaws, caredig, a didderbynwyneb yn ei holl ymdrafodion gyda'i gyddynion mewn masnach yn gyffredinol. Gadawodd weddw a rhyw ddeg neu ychwaneg o blant bychain ar ei ol i deimlo eu colled ar ol tad mor drefnus ac ymdrechgar drostynt. Nerth a gaffont i ymddiried yn y Tad perffaith a digamsyniol, heb roddi dim yn ynfyd yn ei erbyn. Boed nawdd Barnwr y weddw a Thad yr amddifaid drostynt. Dydd Mercher, Chwefror y 25ain, hebryngwyd ef gan dyrfa anferthol luosog i feddrod y teulu i ymyl ei blant anwylgu a'i riaint yn mynwent Caeronen, Cellan, Ceredigion. Gweinyddwyd ar yr achlysur pruddaidd gan y Parch. R. C. Jones, gweinidog y lle yn y capel, y fynwent, ac ar lan y bedd.—*Teifiwyson.*

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, &c., ABERDAR.

AT EIN DERBYNWYR.

D.S.—Amlen Felen—Tal yn ddyledus.

TALIADAU.—W.G., Pontyberem; W.H., Aberaman.

GWELLIANT GWALLAU.—Tud. 57, ll. 8, darllener "Drwg *genyf*," ll. 17, *o* hanes; tud. 58, ll. 5, "2 Tim. iii. 16;" ll. 22, "yn nhrysorfa;" tud. 63, ll. 33, trosedd; ll. 48, "o'i uniondeb;" tud. 65, ll. 36, *hau* efrau.

☞ Tyner pob *Post Office Order* ar y *Mill Street* Post Office, ac yn enw R. J. Jones, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach nâ'r *Post Office Orders*. Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

TELERAU:—Pris 3c., trwy'r post, 3½c.; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

☞ *Anfoner pob archebion a gohebiaethau at*

THE EDITOR OF "YR YMOFYNYDD,"
MEIRION COTTAGE,
ABERDARE.

YR YMOFYNYDD—TREFNIADAU Y FLWYDDYN.

Y Syniad Undodaidd
(1) Am Gredoau, gan y Golygydd.
(2) Am Dduw, gan y Parch. J. E. Manning, M.A.
(3) Am y Beibl, gan y Parch. W. Thomas, M.A.
(4) Am Iesu Grist, gan y Parch. R. C. Jones.
(5) Yr Ysbryd Glan, gan y Golygydd.
(6) Am Ddyn, gan y Parch. W. James, B.A.
(7) Am Bechod ac Iachawdwriaeth, gan y Parch. E. W. Lloyd.
(8) Am Droedigaeth ac Ailenedigaeth, gan y Parch. W. E. Davies.
(9) Am yr Iawn, gan y Parch. T. Thomas.
(10) Gweddi, gan y Parch. J. Davies.
(11) Yr Eglwys, gan y Parch. W. Parry.
(12) Nefoedd ac Uffern, gan y Parch. J. H. Davies.

—:o:—

D.S.—Da genym hyspysu fod y cylchrediad yn cynnyddu yn rhai manau; carem fod ereill yn cymmeryd yr awgrym ac yn helpu.

TRECYNON SEMINARY, ABERDARE.

R. JENKIN JONES, M.A., HEAD-MASTER.

☞ *Vacancies for Boarders. Terms on application.* ☜

CYFARFODYDD Y PASG.

Cynnelir hwy yn Hen Dy Cwrdd, Aberdar, nos Fercher a dydd Iau wythnos y Pasg. Pregethir boreu dydd Iau gan y Parch. J. E. Manning, M.A., Abertawe, yn Saesneg, a'r Parch. W. James, B.A., Llandyssul, yn Gymraeg. Pwnc y Gynnadledd:—"Beth yw cenadwri arbenig Undodiaeth?" Agorir y Pwnc gan y Parch. John Davies, Alltyplaca.

Dydd Sul, Ebrill 5, gwasanaethir yn yr H.D.C., gan y Parch. John Davies, a chan y Parch. W. James, Sul y 12fed. Bydd Mr. Jones ar y Suliau hyny hyny yn y Nottais a'r Gellionen.

D.S.—Deuwch yn gryf a groesaw.